# Archwiliad clustiau o dan anesthetig (EUA)

## Cyngor Rhyddhau

**Archwiliad clustiau o dan anesthetig (EUA):**
Efallai y bydd angen archwiliad y glust (iau) o dan anesthetig ar gyfer un neu nifer o'r rhesymau canlynol:

• Symud rhywbeth o gamlas y glust
• Symud cwyr clust ac asesiad o gamlas y glust/tympan y glust
• Tynnu crawn neu feinwe llid (ee polyp) o'r glust ac yna asesiad o gamlas y glust/tympan y glust
• Biopsi o annormaledd yn y glust

Gellir perfformio'r driniaeth hon naill ai o dan anesthetig lleol (hufen a/neu chwistrelliad i droi camlas y glust yn ddideimlad) neu anesthetig cyffredinol (meddyginiaeth a roddir i ysgogi cwsg). Mae anesthetig cyffredinol yn cael ei ddefnyddio fel arfer mewn plant gan ei bod hi'n bwysig eu bod yn llonydd ar gyfer y driniaeth.

**Gofal y glust wedi'r llawdriniaeth**
Mae'n bwysig cadw'r clust yn sych ar ôl llawdriniaeth. Gallwch wneud hyn trwy gadw'ch pen uwchben dŵr a rhoi rhywfaint o wlân cotwm â Vaseline mewn i'r glust pan yn y bath/cawod. Bydd eich llawfeddyg yn eich cynghori am ba hyd sydd ei angen arnoch i gadw'r glust yn sych.
Efallai y cewch chi rywfaint o ddiferion i'w rhoi i mewn i'r gamlas y glust wedi'r llawdriniaeth. Dylech weinyddu'r rhain fel y rhagnodir.
Gellir gosod pecyn mewn i'ch camlas y glust yn ystod y llawdriniaeth er mwyn helpu i drin heintiau neu atal unrhyw waedu. Bydd angen apwyntiad dilynol arnoch er mwyn tynnu'r pecyn. Gan ddibynnu ar y math o becyn a fewnosodir, bydd angen ei dynnu rhwng 3 diwrnod a 4 wythnos ar ôl llawdriniaeth.

**Cyfnod adfer:**
Mae poen ac anghysur yn tueddu i fod yn ysgafn ac fel arfer mae'n gwella o fewn ychydig ddyddiau. Byddwch yn cael cyngor penodol ar leddfu poen cyn i'ch nyrs eich rhyddhau. Fel arfer mae poenladdwyr syml fel paracetamol ac ibuprofen yn effeithiol.
Os ydych wedi cael y driniaeth o dan anesthetig lleol, gallwch ddychwelyd i'r gwaith/ysgol y diwrnod canlynol. Ar ôl anesthetig cyffredinol, argymhellir 48 awr i ffwrdd o'r gwaith / ysgol.

**Ôl-driniaeth:**
Bydd eich llawfeddyg yn cynghori cyn eich rhyddhau o'r ysbyty a oes angen apwyntiad claf allanol dilynol ai peidio. Os dywedir wrthych fod angen apwyntiad dilynol arnoch ond eich bod heb gael apwyntiad, ffoniwch y swyddfa apwyntiadau cleifion allanol ar 01495 765055.

**GWYBODAETH RHYDDHAU MEWN ARGYFWNG**

Os oes angen cyngor ar frys arnoch dylech gysylltu â

**09:00 i 17:00 Llun-Gwener (ac eithrio gwyliau banc):** Trwyn a Gwddf (ENT) ar 01633 234018

**Ar ôl 17:00/dros nos (oedolion)**: Uned Asesu Lawfeddygol C0 ar 01633 493926 .

**Ar ôl 17:00/dros nos (plant):** Ward Dwyreiniol C1 ar 01633 493609.

**Mewn achos brys ewch i’ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf.**

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English”**